

Polisi Gwrth-Dwyll

Nid yw Prifysgol Caerdydd yn goddef twyll o unrhyw fath.

Caiff pob achos ei drin yn gyfrinachol lle y bo'n bosibl, yn unol â'r Cod Ymarfer Chwythu'r Chwiban.

Os gwelwch achos o dwyll, neu os os oes gennych amheuan:

1. Cysylltwch ag aelod o'r Panel Asesu Twyll:

Prif Swyddog Gweithredu Claire Sanders	+44 29208 74687 SandersC3@caerdydd.ac.uk
Prif Swyddog Ariannol Darren Xiberras	+44(0) 29 2087 4442 xiberrasd@caerdydd.ac.uk
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Sue Midha	+44(0) 29 2087 9243 Midha@caerdydd.ac.uk
Ysgrifennydd y Brifysgol ac Cwnsler Cyffredinol Rashi Jain	+44(0) 29 225 11878 JainR27@caerdydd.ac.uk
Pennaeth Archwilio Mewnol Faye Lloyd	+44 29208 75053 LloydF1@caerdydd.ac.uk

Neu

- 2 Gallai fod yn well gan gyflogaion roi gwybod am achos i'w rheolwr llinell neu i swyddog ar lefel uwch os mai eu rheolwr llinell sy'n gysylltiedig â'r drosedd. Yna dylai'r rheolwr llinell/uwch swyddog gyfeirio'r achos ar unwaith at aelod o'r Panel Asesu Twyll.**

Neu

- 3 Dilynwch y broses a nodir yn ein Cod Ymddygiad Chwythu'r Chwiban sydd i'w weld [yma](#)**

Peidiwch â mynd at yr unigolyn neu unigolion gyda'ch amheuan, na'u trafod gydag unrhyw un arall. Gwnewch nodyn o'ch pryderon a rhowch wybod amdanynt. Ceir rhestr lawn o "Bethau i'w gwneud a phethau na ddylid eu gwneud" wrth roi gwybod am amheuan o dwyll yn [Atodiad 2](#) o'r [Polisi Gwrth-Dwyll](#).

Beth fydd Prifysgol Caerdydd yn ei wneud mewn ymateb i amheuan o dwyll

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw bryderon ac amheuan y rhoddir gwybod i ni amdanynt, a hynny'n gyfrinachol ac yn drylwyr.

Byddwn yn cymryd y camau priodol i ddisgyblu troseddwyd a/neu gymryd camau cyfreithiol.

Polisi Gwrth-Dwyll



AMSERLEN POLISI	
Teitl polisi	Polisi Gwrth-Dwyll
Perchennog y polisi	Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu
Corff cymeradwyo	Prif Swyddog Gweithredu
Dyddiad cymeradwyo	8 Rhagfyr 2017
Dyddiad gweithredu	8 Rhagfyr 2017
Fersiwn	2.0
Statws y fersiwn	Terfynol
Canllawiau a Gweithdrefnau Cysylltiedig	Rheoliadau Ariannol - Prifysgol Caerdydd, Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo, Polisi Rhoddion a Lletygarwch, Cod Ymarfer Chwythu'r Chwiban
Cyfnod adolygu	12 mis o'r dyddiad gweithredu ac yna bob blwyddyn

Hanes y Ddogfen			
Fersiwn	Dyddiad	Awdur/Ymgynghorwyr	Nodiadau ar Ddiwygiadau
1	2017	Stephen Marchant	
2	2017	Laura Hallez	

Polisi Gwrth-Dwyll

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddefnyddio cyllid, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yn briodol. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod staff, myfyrwyr, aelodau o'r Cyngor neu Bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, contractwyr a thrydydd partion yn ymwybodol o'r risg o bob ffurf ar dwyll, llygreddigaeth, lladrad a gweithgareddau anonest eraill.
- 1.2 Nid yw'r Brifysgol yn goddef twyll o unrhyw fath ac mae'n ofynnol i staff, myfyrwyr a'i phartneriaid weithredu'n onest a chydag uniondeb bob amser drwy sicrhau nad yw eu gweithgareddau, eu diddordebau na'u hymddygiadau yn gwrthdaro â'r rhwymedigaethau hyn, waeth beth fo'u rôl, ac i roi gwybod am unrhyw amheuan o dwyll.

2. Diffiniadau

- 2.1 Daeth Deddf Twyll 2006 i rym ar 15 Ionawr 2007, gan gyflwyno'r drosedd gyffredinol o dwyll.
- 2.2 Mae hyn wedi'i rannu'n dair adran allweddol:
 - Twyll drwy ymholiad anwir;
 - Twyll drwy fethu â datgelu gwybodaeth; a
 - Thwyll drwy gamddefnyddio rôl.
- 2.3 Mae'r Ddeddf Twyll hefyd yn creu troseddau newydd;
 - Meddiant o a chreu neu gyflenwi eitemau i'w defnyddio mewn twyll;
 - Masnachu twyllodrus (unig fasnachwyr); a
 - Caffael gwasanaethau'n anonest.
- 2.4 Ceir manylion llawn am y Ddeddf yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/35/contents
- 2.5 Caiff ymgais i dwyllo ei drin yn yr un modd â thwyll a gyflawnwyd. Ar lefel ymarferol, ystyrir twyll yn ymgais fwriadol i amddifadu'r Brifysgol (a'i gweithgareddau cysylltiedig) o arian neu nwyddau. Ceir enghreifftiau pellach o'r hyn sy'n gyfwerth â thwyll yn [Atodiad 1](#).
- 2.6 Daeth Deddf Llwgwrwbrwyo 2010 i rym ar 1 Gorffennaf 2011 ac mae'n nodi'r troseddau llwgwrwbrwyo penodol canlynol:
 - Trosedd gyffredinol yn cynnwys cynnig, addo neu roi llwgwrwbr (yn y DU neu dramor);
 - Trosedd gyffredinol yn cynnwys gofyn am, cytuno i dderbyn neu dderbyn llwgwrwbr;
 - Trosedd gorfforaethol (ar gyfer sefydliadau yn unig) o fethu ag atal llwgwrwbrwyo (achos a gyflawnwyd neu ymgais) gan eu cysylltiadau (yn y DU neu dramor), megis cyflogeion, asiantau, partneriaid cyd-fenter neu is-gwmnïau, sy'n arwain at fudd; a
 - Throsedd ar wahân sy'n cynnwys llwgwrwbrwyo swyddog cyhoeddus tramor.
- 2.7 Gall y llwgwrwbr gael ei rhoi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Nid oes yn rhaid i llwgwrwbr fod yn arian parod ac nid oes rhaid iddi gael ei derbyn; mae cynnig llwgwrwbr neu ofyn am un yn ddigon i dorri Deddf Llwgwrwbrwyo 2010.
- 2.8 Ceir rhagor o wybodaeth am bolisi'r Brifysgol ar ddelio â Llwgwrwbrwyo [yma](#).

Polisi Gwrth-Dwyll

3. Polisi Gwrth-Dwyll

3.1 Nid yw'r Brifysgol yn goddef twyll na llygredigaeth, ac mae'n disgwyl cydymffurfiaeth â'r safonau ymddygiad canlynol:

- Rhaid i'r holl staff, myfyrwyr, aelodau o'r Cyngor neu Bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor ymddwyn mewn ffordd deg a gonest mewn unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Mae hyn yn berthnasol yn yr un modd i ymddygiad mewnol ac allanol mewn perthynas â'n cyflenwyr, partneriaid a chysylltiadau busnes eraill.
- Rhaid i'r holl staff gymhwyso'r rheolaethau, y rheolau a'r rheoliadau mewnol hynny a ddyluniwyd i atal, rhwystro a chanfod twyll.
- Yn ogystal â gweithredu yn unol â'r gyfraith ac unrhyw gytundebau neu gcontractau penodol, rhaid i bob sefydliad allanol sy'n delio â'r Brifysgol ymddwyn yn unol â safonau busnes moesegol arferol yn unol â statws elusennol y Brifysgol a'i threfniadau cyllido sector cyhoeddus.
- Dylai staff, myfyrwyr, aelodau o'r Cyngor neu Bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, contractwyr a thrydydd partïon fod yn ymwybodol o Bolisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol a'r hawl y mae hwn yn ei rhoi iddynt i godi pryderon ynghylch twyll posibl, yn ogystal ag afreoleidd-dra arall.
- Mae gan bob aelod o staff, myfyriwr, aelod o'r Cyngor neu Bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, contractwr neu drydydd parti ddyletswydd i roi gwybod yn brydlon i'r cyswllt dynodedig o fewn y Brifysgol am unrhyw bryderon dilys ynghylch amheumon o dwyll neu afreoleidd-dra.

3.2 Amcan cyffredinol gweithgarwch gwrth-dwyll y Brifysgol yw sicrhau bod pob rhanddeiliad o'r farn bod twyll yn annerbyniol.

3.3 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i leihau hyd yr eithaf y cyfle i gyflawni twyll yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'i gweithgareddau, ei gweithrediadau a'i lleoliadau ac i ymchwilio'n gadarn i unrhyw faterion twyll a allai godi. Bydd unrhyw ymchwiliad o'r fath yn cael ei gynnal heb ystyried ffactorau fel rôl, teitl neu hyd gwasanaeth.

3.4 Lle cyflawnir unrhyw dwyll yn erbyn y Brifysgol, ystyrir bob amser erlyn y person/sefydliad cyfrifol drwy bob llwybr troseddol a/neu sifil sydd ar gael. Bydd y Brifysgol yn dilyn gweithdrefnau disgyblu yn erbyn unrhyw aelod o staff neu fyfyrwr sydd wedi cyflawni twyll.

3.5 Cyfrifoldeb pawb sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, gan gynnwys staff, myfyrwyr, aelodau o'r Cyngor neu Bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, contractwyr a thrydydd partïon, yw cydymffurfio â'r polisi hwn a rhoi gwybod am unrhyw amheumon o dwyll neu lygredigaeth. Mae gan y Brifysgol bolisi "dim dial" ar gyfer pobl sy'n rhoi gwybod am amheumon, a gall pryderon gael eu codi os oes angen dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol, y mae manylion amdano dan Adran 7, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bolisiau eraill, isod.

4. Cynllun Ymateb Twyll

4.1 Mae'r Cynllun Ymateb Twyll yn nodi gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau bod pob cyhuddiad ac adroddiad o dwyll neu afreoleidd-dra yn cael ei ddilyn yn briodol a'i ystyried mewn modd cyson a theg ac y cymerir camau prydol ac effeithiol i:

- bennu cyfrifoldeb am ymchwilio i'r twyll;
- lleihau'r risg o unrhyw golledion dilynol;
- lleihau unrhyw effeithiau gweithredol negyddol;

Polisi Gwrth-Dwyll

- nodi graddau'r cyfrinachedd sy'n ofynnol;
- lliniaru'r difrod (i asedau ac enw da);
- pennu a sicrhau tystiolaeth i gymryd camau troseddol a disgyblu;
- cynyddu'r tebygolrwydd o adfer a graddfa'r adferiad hwnnw;
- rhoi gwybod i Action Fraud a chysylltu ag yswirwyr; ac
- adolygu'r rhesymau am yr achos a gwella'r amddiffynfeydd yn erbyn twyll yn y dyfodol.

Rhoi gwybod am unrhyw amheuan o dwyll neu afreoleidd-dra:

- 4.2 Ceir rhestr o "Bethau i'w gwneud a phethau na ddylid eu gwneud" wrth ymchwilio i a rhoi gwybod am dwyll yn Atodiad 2 o'r Polisi hwn.
- 4.3 Mae dyletswydd ar unigolion sy'n amau twyll yng nghyd-destun gweithgareddau'r Brifysgol i roi gwybod am eu pryderon, ynghyd â disgrifiad o'r afreoleidd-dra honedig, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, i aelod o'r Panel Asesu Twyll a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu.
- 4.4 Gallai fod yn well gan gyflogaion roi gwybod am achos i'w rheolwr llinell neu berson ar lefel uwch os yw'r pryder yn ymwneud â'u rheolwr llinell. Dylai'r unigolyn hwn yna gyfeirio'r achos ar unwaith at aelod o'r Panel Asesu Twyll. Gall unigolion eraill ddefnyddio Polisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol, sydd i'w weld yma.
- 4.5 Os credir bod y twyll a amheuir yn ymwneud â'r Prif Swyddog Ariannol, y Prif Swyddog Gweithredu a/neu'r Is-Ganghellor, dylai'r aelod o staff gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio drwy'r Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch ei bryderon am afreoleidd-dra.
- 4.6 Ar ôl i aelod o'r Panel Asesu Twyll gael gwybod am afreoleidd-dra posibl, dylai gysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredu (COO) cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ac fel arfer o fewn un diwrnod gwaith.
- 4.7 Caiff twyll, gan gynnwys erledigaeth ac atal/rhwystro rhywun rhag rhoi gwybod am amheuan o dwyll, ei drin fel Trosedd Ddifrifol dan brosesau disgyblu'r Brifysgol. Yn yr un modd, fodd bynnag, ymdrinnir â chamddefnydd o'r broses drwy adrodd ar honiadau maleisus fel mater disgyblu.

Y Panel Asesu Twyll

- 4.8 Ar ôl cael gwybod am dwyll, bydd y COO yn rhoi gwybod i'r Is-Ganghellor a'r Pwyllgor Archwilio (drwy ei gadeirydd). Lle bo'r afreoleidd-dra yn ymwneud â'r COO, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fyddai'n arwain y Panel Asesu. Os bydd y digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw aelod arall o'r Panel, bydd y Prif Swyddog Gweithredu'n penodi rhywun i gymryd ei le.
- 4.9 Bydd y Panel Asesu Twyll yn penderfynu pa gamau ymchwilio pellach sy'n angenrheidiol (os o gwbl). Yn benodol, ystyrir y materion canlynol:
- 1) Pwy i'w gynnwys yn yr ymchwiliad;
 - 2) A ddylid cyfarwyddo'r Uned Archwilio Mewnol i gynnal ymchwiliad;
 - 3) A oes angen gwybodaeth fwy arbenigol i helpu gyda'r ymchwiliad;
 - 4) A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau o ran pwy sydd angen gwybod am yr amheuaeth o dwyll a'r lefel o gyfrinachedd;
 - 5) Pa gamau sydd angen eu cymryd i leihau difrod byrdymor, gan gynnwys:

Polisi Gwrth-Dwyll

- a. Ynysu'r cyflogai o'r amgylchedd gwaith;
 - b. Atal mynediad i gyfrifiaduron y Brifysgol a'r gweithle;
 - c. Cyfyngu ar symud asedau;
 - d. Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau AD;
 - e. Sicrhau bod unrhyw gyfweiliad yn brydlon a bod iddo amcanion clir.
- 6) Rhoi gwybod i Action Fraud (dyma'r ffordd ffurfiol o roi gwybod am dwyll a seiberdroseddu i'r Heddlu - ewch i www.actionfraud.police.uk am ragor o wybodaeth);
 - 7) Pa gamau sydd angen eu cymryd dan delerau polisi yswiriant y Brifysgol i sicrhau yr adroddir yn brydlon;
 - 8) A oes yna unrhyw faterion yn ymwneud â chysylltiadau â'r cyfryngau;
 - 9) Pa gamau y dylid eu cymryd yn erbyn y sawl sy'n gyfrifol;
 - 10) Pa bolisïau, rheoliadau neu weithdrefnau a dorrwyd a sut oedd hyn yn bosibl;
a
 - 11) Pha gamau sydd angen eu cymryd i roi gwybod i CCAUC a'r Comisiwn Elusennau

4.10 Mae Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i fwrw ymlaen â'i gweithdrefnau disgyblu ei hun a/neu achos sifil, er bod yr heddlu'n cynnal ymchwiliadau/achos troseddol.

Atal colled bellach

4.11 Lle bo'r ymchwiliad cychwynnol yn rhoi seiliau rhesymol dros amau aelod neu aelodau o staff o dwyll, bydd y Panel Asesu Twyll yn penderfynu sut i atal colled bellach. Gallai fod angen gwahardd, gyda neu heb dâl, y rhai dan amheuaeth. Rhaid i unrhyw benderfyniad i wahardd aelod o staff gael ei wneud gan y Panel Asesu ynghyd â'r adran Adnoddau Dynol.

4.12 Gallai fod angen cynllunio amseriad y gwaharddiad i sicrhau na chaiff tystiolaeth, a allai fod ei hangen i gefnogi camau disgyblu neu droseddol, ei dinistrio neu ei symud.

4.13 Dan yr amgylchiadau hyn, dylai o leiaf ddau berson (dylai un ohonynt fod yn rhan o'r Panel Asesu Twyll) fynd at y person(au) dan amheuaeth yn ddirybudd, a dylid ystyried diogelwch personol staff. Dylai'r person(au) dan amheuaeth gael ei oruchwylio bob amser cyn iddo adael safle'r Brifysgol.

4.14 Dylai gael y cyfle i gasglu eiddo personol dan oruchwyliaeth, ond ni all gludo ymaith unrhyw eitemau sy'n eiddo i'r Brifysgol (gan gynnwys dyfeisiau symudol). Rhaid dychwelyd unrhyw basys diogelwch ac allweddi i safleoedd, swyddfeydd a dodrefn. Rhaid dileu caniatâd mynediad y person dan amheuaeth i holl systemau cyfrifiadurol y Brifysgol ar unwaith.

4.15 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, ar ôl cael cymeradwyaeth y Panel Asesu Twyll, yn ystyried a oes angen ymchwilio i systemau ac eithrio'r un a arweiniodd at amheuaeth, y gallai'r person a amheuir fod wedi cael cyfleoedd i gamddefnyddio asedau'r Brifysgol drwyddi.

Pennu a sicrhau tystiolaeth

4.16 Bydd staff ymchwilio yn:

- ceisio canfod ffeithiau i gadarnhau neu wrthod y gŵyn;
- sicrhau bod unrhyw dystiolaeth, gan gynnwys cyfleusterau TG, yn ddiogel;

Polisi Gwrth-Dwyll

- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau disgyblu a hawliau statudol y Brifysgol i sicrhau bod y gofynion tystiolaeth yn cael eu bodloni yn ystod unrhyw ymchwiliad twyll;
- sefydlu a chynnal cyswllt gyda'r heddlu lle y bo'n briodol;
- sicrhau bod staff sy'n ymwneud â'r achos yn cydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ac yn gyfarwydd â'r rheol ar dderbynoldeb tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall mewn achosion troseddol.

Adennill colledion

4.17 Mae adennill colledion yn un o brif amcanion unrhyw ymchwiliad twyll. Bydd y swyddogion ymchwilio yn sicrhau bod y swm a gollwyd yn cael ei gyfrif ym mhob ymchwiliad twyll. Dylid ceisio ad-dalu colledion ym mhob achos.

4.18 Lle bo'r golled yn sylweddol, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar unwaith ynghylch yr angen i rewi asedau'r person dan amheuaeth drwy'r llys, yn amodol ar gasgliad yr ymchwiliad. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol hefyd ynghylch y gobeithion o adennill colledion drwy'r llys sifil pan fydd y troseddwr yn gwrthod talu.

4.19 Fel arfer, disgwylir i'r Brifysgol adennill costau sy'n ychwanegol at y colledion. Dylid rhoi gwybod i yswirwyr y Brifysgol fod hawliadau o'r fath yn cael eu ceisio.

Adrodd

4.20 Caiff adroddiad terfynol ei baratoi ar gyfer yr Is-Ganghellor a'r Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys:

- 1) Disgrifiad o'r afreoleidd-dra a amheuir
- 2) Casgliad ynghylch sylwedd y cyhuddiadau a wnaed
- 3) Graddau'r golled neu effaith negyddol ar yr Brifysgol
- 4) Disgrifiad o unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r unigolyn neu unigolion dan sylw, ynghyd ag argymhellion ynghylch unrhyw gamau disgyblu
- 5) Y camau a gymerwyd i liniaru unrhyw golledion i'r Brifysgol
- 6) Y mesurau a weithredwyd i leihau'r risg o achos tebyg arall
- 7) Y camau sydd angen eu cymryd i atgyfnerthu ymatebion i dwyll yn y dyfodol, gydag adroddiad dilynol ar b'un ai a oes camau wedi'u cymryd
- 8) Cyngor ar fesurau ataliol i atgyfnerthu ymatebion i dwyll yn y dyfodol
- 9) Unrhyw reoliadau, polisiâu neu weithdrefnau a dorrwyd ac unrhyw ddiwygiadau a argymhellir

4.21 Rhoddir gwybod i CCAUC am unrhyw achosion sylweddol o dwyll neu afreoleidd-dra fel y nodir yng Nghod Rheolaeth Ariannol CCAUC. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol, y gellir ei weld ar wefan CCAUC www.hefcw.ac.uk, yn cynnwys canllawiau clir ar ba fath o dwyll y dylid adrodd arno.

4.22 Rhoddir ystyriaeth i gyfleu'r gwersi a ddysgwyd o'r twyll ar draws y Brifysgol gyda'r nod o wella arferion.

4.23 Hefyd, ystyrir y gofyniad i roi gwybod i awdurdodau perthnasol y llywodraeth e.e. yr heddlu neu Fisâu a Mewnffudo'r DU.

5. Y Gofrestr Twyll

Polisi Gwrth-Dwyll

Mae'r Swyddog Polisi'n cadw Cofrestr Twyll yn cynnwys unrhyw afreoleidd-dra fel y nodir ym mharagraff 4.3. Dylai gynnwys:

- Dyddiad yr achos
- Disgrifiad o'r digwyddiad
- P'un ai a brofwyd twyll
- Y gost neu'r effaith negyddol ar y Brifysgol
- Manylion cynhwysiant yr Heddlu
- Manylion unrhyw gyfathrebu ag awdurdodau allanol
- Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r Is-Ganghellor a'r Pwyllgor Archwilio
- Canlyniad unrhyw ymchwiliad
- Y camau i'w cymryd i wella'r amgylchedd rheoli

6. Monitro ac Adolygu

Bydd y Pwyllgor Archwilio'n monitro effeithiolrwydd y Polisi hwn ac yn adolygu ei addasrwydd a'i ddigonolrwydd yn flynyddol fel rhan o'i adolygiad llywodraethu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Gofrestr Twyll, fel y gall unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau a adroddwyd gael eu hymgorffori yn y Polisi i wella effeithiolrwydd y Brifysgol o ran atal a chanfod twyll.

7. Polisiau cysylltiedig

Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â Pholisiau, Gweithdrefnau a Rheoliadau eraill y Brifysgol fel a ganlyn:

- Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo
- Rheoliadau Ariannol
- Cod Ymarfer Chwythu'r Chwiban
- Polisi Rhoddion a Lletygarwch
- Camweinyddiad ymchwil academaidd

Polisi Gwrth-Dwyll

Atodiad 1 - Enghreifftiau o Dwyll

- **Twyll yn ymwneud ag arian parod, asedau ffisegol, eiddo deallusol neu wybodaeth gyfrinachol:**
 - Lladrata eiddo'r Brifysgol
 - Symud eiddo'r Brifysgol heb awdurdod
 - Trosglwyddo data cwmni neu eiddo deallusol
 - Datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb awdurdod
 - Creu anfonebau ffug
- **Camddefnyddio cyfrifon:**
 - Cael mynediad i gyfrifon banc
 - Mae twyllwyr yn dynwared dioddefwyr diniwed i gael cynhyrchion neu wasanaethau yn eu henw, a elwir hefyd yn dwyll hunaniaeth.
 - Ceisio newid manylion cyfrif banc cyflenwyr a thaledigion
 - Twyll hunaniaeth lle caiff staff eu perswadio i ddatgelu manylion mewngofnodi a chyfrineiriau
- **Twyll caffael:**
 - Creu neu arallgyfeirio taliadau ffug
 - Rigio cynigion
 - Atgyfeirio nwyddau neu wasanaethau at ddefnydd personol
 - Cydgynllwynio gyda chyflenwyr i dderbyn nwyddau neu wasanaethau israddol
 - Llwgwobrwyon a thaliadau anghyfreithlon
 - Gwrthdaro buddiannau rhwng trydydd partion a chysylltiadau
- **Twyll Uwch Aelodau o Staff:**
 - Twyllwyr yn dynwared uwch aelodau o staff i fynnu bod trosglwyddiad banc yn cael ei wneud i gyfrif amhriodol
- **Twyll y gyflogres:**
 - Newidiadau anawdurdodedig i systemau AD neu'r gyflogres
 - Mewnbynnu manylion anghywir e.e. oriau a weithiwyd
 - Cyflogeion ffug
 - Ffugio nodiadau salwch hunan-ardystiedig / meddygon
- **Twyll cyfrifeg ariannol, gan gynnwys ffioedd:**
 - Ffugio cyfrifon neu gofnodion eraill
 - Ffugio ffurflenni ariannol neu hawliadau
 - Defnyddio enw, logo neu bapur pennawd y Brifysgol am resymau personol
 - Embeslu
 - Lladrad mewnol
 - Tan-gofnodi incwm
 - Symud neu ddinistrio cofnodion heb awdurdod
 - Ffugio neu ddiwygio dogfennau
- **Hawliadau twyllodrus:**
 - Milltiredd
 - Defnydd personol
 - Ffugio neu addasu derbynebaw
 - Ffugio / dyblygu hawliadau treuliau
 - Anfon taliadau i'ch hun trwy gyfrifon fel Paypal / Square
- **Twyll geirdaon, cymwysterau a chyflogaeth:**
 - Curriculum Vitae (CV) twyllodrus
 - Geirdaon twyllodrus
 - Cam-gynrychioli cymwysterau / tystysgrifau

Polisi Gwrth-Dwyll

Cyflogi teulu a ffrindiau dros ymgeiswyr gwell

Ffugio dogfennau fel pasbortau a fisâu neu ddogfennau adnabod eraill

- **Twyll llwgrwobrwyo a llygredigaeth:**
Delir â hyn dan y Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo a Llygredigaeth
- **Twyll academiaidd:**
Llên-ladrad
Cynorthwyo mewnfudo anghyfreithlon
Interniaethau
Ffugio canlyniadau a dyfarniadau arholiadau
- **Twyll yn ymwneud â llety, gan gynnwys dewisiadau a thaliadau:**
Talu blaendaliadau lle nad yw'r llety'n bodoli

Twyll â goblygiadau academiaidd

- Gall twyll yn aml gael ei gysylltu â budd ariannol uniongyrchol, megis twyll caffael ac anfonebu. Fodd bynnag, yn y sector Prifysgol/Addysg Uwch, mae twyll academiaidd hefyd yn bosibiliad, gan gynnwys twyll yn ymwneud â mewnfudo, derbyniadau, interniaethau, arholiadau a dyfarniadau.
- Gall gweithgareddau twyllodrus o'r fath fod yn uchel eu proffil, gyda goblygiadau posibl sylweddol i'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, mae'n hanfodol y cysylltir â pherson priodol cyn gynted â phosibl, ynghyd ag uwch swyddog(ion) arall yn y Brifysgol, fel yr ystyrir yn briodol. Gan fod pob achos o'r fath yn wahanol, mae bron yn amhosibl llunio canllawiau pendant i'w dilyn.
- Gall twyll o'r fath gynnwys nifer o randdeiliaid, gan gynnwys yr heddlu a chyrrff proffesiynol, ond mae'r penderfyniadau o ran eu cynnwys - yn gyffredinol - yn parhau yn nwylo uwch swyddogion y Brifysgol. I sicrhau nad yw'r ymchwiliad yn cael ei beryglu, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod nifer y bobl sy'n ymwybodol o'r ymchwiliad yn cael ei gadw mor isel â phosibl. Serch hynny, dylid cydnabod y bydd yr heddlu yn cychwyn eu hymchwiliad eu hunain mewn rhai achosion o dwyll o'r fath.

Atodiad 2 - "Pethau i'w gwneud a phethau na ddylid eu gwneud" mewn perthynas â Thwyll

- **Peidiwch** â mynd wyneb yn wyneb ag unrhyw unigolyn neu unigolion a amheuir.
- **Peidiwch** â chysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol - cyfrifoldeb y person priodol ac uwch swyddogion eraill y Brifysgol yw'r penderfyniad hwnnw.
- **Dylech** roi gwybod am eich pryderon, fel uchod; caiff adroddiadau eu trin yn gyfrinachol.
- **Dylech** fwrw ati i godi eich pryderon, hyd yn oed os cewch eich annog i beidio â gwneud hynny.
- **Dylech** gadw neu gopïo unrhyw ddogfen(nau) berthnasol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio dogfennau mewn unrhyw ymchwiliad dilynol ac na chânt eu dinistrio, yn ddamweiniol neu'n fwriadol.
- **Peidiwch** â bod ofn gofyn am gyngor gan eich rheolwr llinell, uwch swyddog neu aelod o'r Panel Asesu Twyll.
- **Peidiwch** â thrafod eich pryderon gyda'ch cydweithwyr neu unrhyw un arall ac eithrio'r bobl y cyfeirir atynt uchod.

Polisi Gwrth-Dwyll

- **Peidiwch** dan unrhyw amgylchiadau â gwahardd rhywun os ydych yn rheolwr llinell heb gyngor uniongyrchol gan yr adran Adnoddau Dynol.